



Trafodaeth Banel | Atebion polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra a chlefyd yr afu brasterog yng Nghymru **Tachwedd 2023**

Digwyddiad: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a Chanser yr Afu a thrafodaeth banel i ddilyn ar atebion polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra a chlefyd yr afu brasterog yng Nghymru

Dyddiad ac amser: Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2023, 12:00-13:00

Lleoliad: Ystafell gynadledda A (trefniadau hybrid)

Yn bresennol: Joel James AS (Cadeirydd), Heledd Morgan AS, Russell George AS, Jenny Rathbone AS, Sarah Murphy AS, Julie Morgan AS + cynorthwydd, Dr Lee Gonzalez, Mathew Norman (Diabetes UK Cymru), Richard Daniels (Ymddiriedolaeth Afu Prydain), Paul McGlinchey (Ymddiriedolaeth Afu Prydain), Julie Adams (Ymddiriedolaeth Afu Prydain), William Williams (eiriolwr cleifion), Andrew Yeoman (arweinydd clinigol, LDIG), Claire Williams (Diabetes UK), Julie Harrington (Guts UK).

Cofnodion

- Diolchodd **Joel James AS (Cadeirydd)** i'r panelwyr a'r rhai yn bresennol am gymryd amser i gefnogi'r digwyddiad pwysig hwn ar fynd i'r afael â gordewdra cynyddol a chlefyd yr afu brasterog yng Nghymru; darparu sylwadau rhagarweiniol ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn tynnu sylw at gynnydd diweddar gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd yr Afu a Chanser yr Afu o ran codi proffil argyfwng iechyd y cyhoedd clefyd yr afu yng Nghymru gan gynnwys cyflwyno dros 50 o Gwestiynau Seneddol, a sicrhau'r ddadl gyntaf erioed ar glefyd yr afu a chanser yr afu yn y Senedd ym mis Ionawr 2023.
- Nodwyd, er gwaethaf datblygiadau polisi diweddar gan gynnwys cyhoeddi Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Clefydau'r Afu ym mis Tachwedd 2022, a chyflwyno Llwybr Prawf Gwaed Afu Annormal Cymru Gyfan ledled y wlad, mae heriau sylweddol yn parhau gyda marwolaethau clefyd yr afu wedi cynyddu 23% yn y 2 flynedd ddiwethaf yn unig.
- Nodwyd ymhellach y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn llunio 'adroddiad cyflwr y genedl' yn 2024 i nodi atebion polisi i gyflymu diagnosis cynharach, gwella canlyniadau, mynd i'r afael â phrinder gweithlu cronig a lleihau amrywiadau diangen mewn gofal.

Canlyniad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Ail-etholwyd Joel James AS i swydd y Cadeirydd. Ail-etholwyd swyddogion presennol (Sarah Murphy AS, Jane Dodds AS) drwy gonsensws trawsbleidiol, gyda Mabon ap Gwynfor AS (Plaid Cymru) yn cymryd drosodd oddi wrth Rhun ap Iorwerth AS.

- Fe wnaeth **Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Russell George AS**, agor y drafodaeth banel drwy dynnu sylw at faich sylweddol afiechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra yng Nghymru gyda dwy ran o dair o'r boblogaeth dros bwysau neu'n ordew; gan nodi â phryder y gyfradd ddigwyddedd uchel ar gyfer clefyd yr afu ym Mwrdd Iechyd Powys; pwysleisiodd fod polisi atal yn aml yn cael ei drin fel rhywbeth eilradd i fynd i'r afael â phwysau uniongyrchol ar y GIG yn enwedig yng nghyd-destun argyfwng costau byw; tynnodd sylw at sgysiau diweddar gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd ar y ddeddfwriaeth marchnata bwyd sothach sydd ar ddod a safbwyntiau gwahanol ar ymyrraeth y llywodraeth i reoleiddio'r amgylchedd bwyd a diod nad ydynt yn iach; gan nodi pwysigrwydd chwilio am arferion da y maes atal gordewdra yn rhyngwladol ac o fewn cyfandir Ewrop yn arbennig i hybu diet iach a ffordd iach o fyw.
- Amlygodd **Cynrychiolydd Cynghrair Gordewdra Cymru, Mathew Norman (Dirprwy Gyfarwyddwr, Diabetes UK Cymru)**, ragamcanion diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer [Y GIG mewn 10 Mlynedd a Mwy](#) sy'n cydnabod mynychder cynyddol clefydau anhosroglwyddadwy (e.e. clefyd cardiofasgwlaidd, clefyd yr afu, diabetes) sy'n gysylltiedig â ffactorau risg y gellir eu



haddasu (alcohol, ysmegu, bwydydd â braster, siwgr a halen uchel), gan nodi effaith cyflyrau hirdymor ac amlafiachedd ar bwysau enfawr ar y GIG y gellir eu hosgoi. Eglurodd MN nad yw newidiadau rheoleiddiol i'r amgylchedd bwyd a diod nad ydynt yn iach yn ymwneud â gwahardd rhywbeth ond gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysg a grymuso cartrefi i sicrhau bod dewisiadau iachach yn fwy hygyrch. Tynnodd MN sylw at bwysigrwydd gweithredu strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn effeithiol gyda digon o adnoddau i wella'r gwaith o ganfod clefydau anhrosglwyddadwy yn gynharach mewn gofal sylfaenol megis clefyd yr afu a diabetes math 2 (e.e. diffyg cyllid ar gyfer Rhwydwaith Gweithredu Clefyd yr Afu); a nododd rôl mesurau atal wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach.

- Amlygodd **Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Jenny Rathbone AS**, effaith ddifrifol bwyd wedi'i brosesu'n helaeth (UPF) ar ehangu'r bwlch mewn disgwyliad oes iach gan gynnwys yn ei hetholaeth ei hun; gan nodi bod UPF wedi'i reoleiddio'n wael a bod ganddo dreiddiad arbennig yn y DU a'r Unol Daleithiau sy'n ysgogi gordewdra yn y boblogaeth a chyflyrau y gellir eu hatal megis clefyd y galon a diabetes. Nododd JR ymhellach bwysigrwydd tynnu UPF o ysgolion, cartrefi nyrsio ac ysbytai.
 - Cydnabu Joel James AS bwysigrwydd hanfodol gwella addysg ar goginio a bwyta'n iach mewn ysgolion.
 - Tynnodd Dr Lee Gonzalez sylw at bwysigrwydd bwydydd fforddiadwy a maethlon silff-sefydlog i gartrefi prysur.
 - Tynnodd Julie Harrington (Guts UK) sylw at bwysigrwydd mwy o ymchwil i fanteision iechyd microbiom amrywiol, gan gydnabod effaith tlodi ac anghydraddoldeb fel ysgogwyr salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra.
 - Amlygodd Dr Andrew Yeoman (arweinydd clinigol Rhwydwaith Gweithredu Clefyd yr Afu) fod yr amgylchedd bwyd a diod afiach yn ysgogi canser, clefyd yr afu a diabetes; gan nodi y gall bwyd wedi'i brosesu'n helaeth (UPF) gael effaith andwyol ar iechyd eich perfedd tra bod dietau cytbwys a maethlon yn gallu creu microbiom optimaidd ar gyfer trawsblaniadau ysgarthol i gleifion clefyd yr afu.
 - Tynnodd Dr Yeoman sylw hefyd at bwysigrwydd ffactorau rhagofalus i fynd i'r afael â salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra megis theori ysgogiad, gwell dewis, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysg mewn ysgolion, a gwella'r broses o ganfod clefyd yr afu brasterog yn gynharach mewn gofal sylfaenol.
- Nododd **Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwyllderau Bwyta, Sarah Murphy AS (aelod o'r Bwrdd Trawsbleidiol)**, ei bod yn wych gweld un o'i hetholwyr o Ben-y-bont ar Ogwr yn mynychu o bell (William) gan ei fod yn eiriolwr brwd dros wella canlyniadau i gleifion clefyd yr afu yng Nghymru; nododd gymhlethdod ynghylch gweithredu Pwysau Iach: Cymru Iach mewn ysgolion a sicrhau sensitifrwydd i blant categorïau sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu sy'n fwy tebygol o ddatblygu anhwylderau bwyta; pwysleisiodd effaith yr argyfwng costau byw ar y cartrefi tlotaf gyda banciau bwyd yn nodi bod tlodi tanwydd yn rhwystro teuluoedd rhag gallu coginio hyd yn oed pasta neu reis; amlygodd ymhellach arloesi lleol ac arfer da yn ei hetholaeth ei hun gyda Chynllun Bagiau Llysiâu Fferm Slade yn cefnogi aelwydydd ansicr o ran bwyd drwy grant gan Lywodraeth Cymru; pwysleisiodd bwysigrwydd mynd i'r afael â gwastraff bwyd a nododd y twf mewn pecynnau paratoi prydau iach.

Galwad am weithredu: Daeth y digwyddiad i ben gyda Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, Joel James AS, yn galw am weithredu. Anogwyd Aelodau'r Senedd i gyflwyno Cwestiynau Seneddol pwrpasol a llofnodi llythyr trawsbleidiol at y Farwnes Morgan (Gweinidog Iechyd) ynghylch cryfhau'r oruchwyliaeth ar gyfer atal a diagnosis cynharach o glefyd yr afu yng Nghymru. Cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cyhoeddi adroddiad 'cyflwr y genedl' ar glefyd yr afu a chanser yr afu yng Nghymru yn 2024.